



Annwyl Riant/ Warchodwr,

Mae eich plentyn wedi derbyn lle i fynychu sesiwn y prynhawn yn y Feithrin yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân gan ddechrau ym mis Medi 2018. Oriau sesiwn y prynhawn yw 1.00-3.30.

Mae cychwyn ysgol yn gam mawr i unrhyw blentyn ac er mwyn hwyluso mynediad eich plentyn i'n hysgol rydyn ni wedi trefnu cyfarfod am 1.30 o'r gloch ar brynhawn dydd Mawrth y 12fed o Fehefin yn yr adeilad Meithrin. Rhoddir y cyfarfod y cyfle i chi edrych o gwmpas y Feithrin ac ysgol ac i gwrdd ag aelodau o staff. Rhoddir i chi hefyd y gwaith papur priodol ar gyfer mynediad eich plentyn i'r Feithrin ym mis Medi a'r cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych. Dewch i'r gât ger cylchdro'r ysgol erbyn 1.30. Bydd aelod o staff yno i ddatglo'r gât a'ch cyfeirio tuag at yr adeilad Meithrin.

Yn ogystal â hyn mae cyfle i'ch plentyn fynychu sesiwn blasu yn y Dosbarth Meithrin ar ddydd Iau y 5ed o Orffennaf rhwng 10-45 a 12 o'r gloch. Mae'r sesiwn yn rhoi i'ch plentyn y cyfle i gael cyflwyniad i arferion y Dosbarth Meithrin ac i gwrdd â'r staff yno. Nodwch y trefniadau isod os gwelwch yn dda.

Mi fydd y gatiau ger y cylchdro ym mlaen yr ysgol ar agor ychydig cyn 10.45. Dewch drwy'r gatiau hynny, ar draws yr iard isaf ac i fyny'r ramp at y Feithrin a lleolir ar yr iard uchaf erbyn 10.45 os gwelwch yn dda **(nid i brif fynedfa'r ysgol)**. Yn yr un modd, ar ddiwedd y sesiwn blasu (12 o'r gloch) defnyddiwch yr un gatiau i ddod i nôl i fyny i'r Feithrin i gasglu'ch plentyn.

Estynnwn wahoddiad cynnes i chi ac edrychwn ymlaen at eich gweld ar y 12fed o Fehefin ac i weld eich plentyn ar y 5ed o Orffennaf.

Yn gywir

Rhian Sennitt  
Arweinydd Meithrin a Derbynn